# WL0

# Cyngor i reolwyr

## Hanfodion COSHH ar gyfer weldio, gwaith poeth a phrosesau perthynol

**Mae'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau bod amlygiad wedi ei atal, neu ble nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, wedi ei reoli'n ddigonol. Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i gyflawni hyn trwy weithredu egwyddorion arfer da ar gyfer rheoli amlygiad i sylweddau sy'n beryglus i iechyd, fel sy'n ofynnol dan COSHH.**

**Mae wedi ei anelu at bobl y mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli sylweddau peryglus i iechyd yn y gwaith (e.e. arbenigwyr iechyd galwedigaethol, unrhyw un yn cyflawni asesiadau COSHH a goruchwylwyr). Mae hefyd yn ddefnyddiol i gynrychiolwyr undebau llafur a diogelwch cyflogeion. Bydd yn eich helpu i gyflawni asesiadau COSHH, adolygu asesiadau cyfredol, darparu hyfforddiant a goruchwylio gweithgareddau yn ymwneud â sylweddau sy'n beryglus i iechyd.**

**Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y canllaw, oni bai y nodir hynny'n benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllaw, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn.**

**Gweler Gwybodaeth allweddol yn agos at ddiwedd y ddalen.**

## Cyflwyniad

Mae HSE wedi cynhyrchu'r dalenni cyngor hyn i helpu cyflogwyr i asesu a rheoli risgiau o sylweddau peryglus yn y gweithle. Ar gyfer rhai tasgau prosesau weldio a pherthynol, mae'r dalenni cyngor yn ystyried peryglon iechyd (a photensial i amlygiad) y sylweddau a ddefnyddiwyd neu a gynhyrchwyd i nodi dull priodol i reoli'r risgiau.

Mae'r gyfres WL o ddalenni arweiniad yn disgrifio arfer da ar gyfer rheoli amlygiad i fygdarth weldio a phrosesau cysylltiedig. Mae'n debygol y byddwch angen mwy nag un ddalen arweiniad i'ch darparu â gwybodaeth ar y rheoliadau sy'n berthnasol i'ch tasg neu broses penodol. Trwy nodi gwybodaeth eich proses yn yr offeryn gwe hanfodion COSHH, daw rhestr o ddalenni arweiniad a rhestr o ddalenni arweiniad perthnasol atodol ar gael i chi. Mae'r gyfres WL wedi ei leoli ar yr offeryn gwe dan yr is-benawdau: Cyngor Uniongyrchol, Diwydiannau Cynhyrchu, Weldio a Thorri.

## Beth mae'r taflenni WL yn trafod

Mae'r dalenni arweiniad rheoli WL (a restrir isod) yn disgrifio arfer da ar gyfer rheoli amlygiad i sylweddau peryglus yn y diwydiant weldio.

| | |
|---|---|
| WL0 | Cyngor i reolwyr |
| WL1 | Tynnwyd yn ôl |
| WL2 | Weldio mewn llefydd cyfyng/cyfyngedig |
| WL3 | Rheoli mygdarth weldio |
| WL4 | Tynnwyd yn ôl |
| WL5 | Tynnwyd yn ôl |
| WL6 | Tynnwyd yn ôl |
| WL7 | Tynnwyd yn ôl |
| WL8 | Tynnwyd yn ôl |
| WL9 | Tynnwyd yn ôl |
| WL10 | Tynnwyd yn ôl |
| WL11 | Tynnwyd yn ôl |
| WL12 | Tynnwyd yn ôl |
| WL13 | Tynnwyd yn ôl |
| WL14 | Torri â llaw gyda nwy ac ocsi-nwy |
| WL15 | Torri arch plasma: cyfarpar sefydlog |
| WL16 | Cafnu aer-arch (carbon aer a chafnu arch) |
| WL17 | Tynnwyd yn ôl |
| WL18 | Paratoi arwynebau: chwythellu gwasgedd (eitemau bach) |
| WL19 | Paratoi arwynebau: chwythellu gwasgedd (eitemau canolig eu maint) |
| WL20 | Paratoi arwynebau: chwythellu gwasgedd (eitemau mawr) |
| WL21 | Glanhau weldio gyda phast piclo |

## Peryglon

Gall mygdarth weldio (sy’n cynnwys nwyon poenus megis ocsidau o nitrogen ac osôn) achosi poen resbiradol a thwymyn mygdarth metel. Gall hefyd gynyddu tueddiad i niwmonia. Yn y tymor hwy, gall arwain at glefydau ysgyfaint difrifol yn cynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), a oedd yn cael ei alw’n broncitis cronig, ac emffysema, asthma galwedigaethol a chanser.

Gall nwyon cysgodi (megis argon, heliwm a nitrogen, neu gymysgeddau seiliedig ar argon yn cynnwys carbon deuocsid, ocsigen neu’r ddau) achosi mygu (tagiad oherwydd diffyg ocsigen), fel arfer yn deillio o groniad y nwyon mewn llefydd cyfyng.

Gall mygdarth a llwch o brosesau perthynol, e.e. torri â fflam ac arch, chwythellu a gorchuddio wedi weldio, achosi clefyd yr ysgyfaint. Mae gweithdrefnau chwythellu sgraffiniol yn cynhyrchu cryn dipyn o lwch sy'n cynnwys metelau ac ocsidau metel.

Mae pob sefyllfa’n wahanol. Mae’r perygl yn amrywio ac yn ddibynnol ar y broses, e.e. y defnydd weldio, y metel sylfaenol, gorchuddion arwyneb neu lygryddion, a ble mae'r dasg yn cael ei chyflawni.

## Gofynion COSHH eraill

Efallai y bydd angen i chi gyflawni arolwg mesur amlygiad, a fydd yn cynnwys samplu aer ac, ar gyfer rhai sylweddau peryglus penodol, byddai monitro biolegol hefyd yn briodol. Mae mesurau amlygiad yn pennu os yw mesurau rheoli cyfredol yn amddiffyn iechyd gweithwyr yn effeithiol neu os oes angen gwelliannau i’r strategaeth rheoli. Gweler y Ddalen Canllaw Rheoli Cyffredinol G409 Rheoli Amlygiad: Samplu aer, sydd â chyngor ar ddethol unigolyn cymwys i gyflawni'r arolwg mesur. Mae’n bwysig nodi bod yna Safon Brydeinig ar gyfer samplu mygdarth weldio, y gall yr unigolyn cymwys sy'n cyflawni'r samplu ei ddilyn: ISO10882 Iechyd a Diogelwch mewn Prosesau Weldio a Pherthynol – Samplu gronynnau yn yr aer a nwyon ym mharth anadlu'r gweithredwyr Rhannau 1 a 2.

Efallai y bydd angen i chi gyflawni goruchwyliaeth iechyd ar gyfer gweithwyr. Gweler y Dalenni Canllaw Rheolaeth Cyffredinol ar oruchwyliaeth iechyd ar gyfer asthma galwedigaethol (G402) a monitro iechyd ar gyfer COPD (G401).

Bydd amlygiad i blwm o weldio, torri a chwythellu metel sydd wedi ei orchuddio mewn paent seiliedig ar blwm angen asesiad ar wahân a chyflawni goruchwyliaeth iechyd yn unol â’r Rheoliadau Rheoli Plwm yn y Gwaith 2002, Cod Ymarfer Cymeradwy (ACOP L132).

## Sut i ddefnyddio’r dalenni

- ✓ Ystyried y prosesau/tasgau a sylweddau peryglus yn eich gweithle.
- ✓ Ystyriwch ddefnyddio dulliau paratoi asio, torri neu arwyneb sy’n cynhyrchu llai o fygdarth neu lwch.
- ✓ Archwiliwch y dalenni cyngor ar gyfer pob un o'r tasgau.
- ✓ Archwiliwch y dalenni gwybodaeth allweddol a restrir ar bob dalen cynghori.
- ✓ Cymharwch weithrediadau yn eich gweithle gydag argymhellion yn y dalenni cynghori ar gyfer eich holl dasgau perthnasol.
- ✓ Cofnodwch gasgliadau arwyddocaol (mae hyn yn rhan o’ch asesiad risg).

- ✓ Cofnodwch unrhyw weithredoedd mae angen i chi eu cyflawni yn cwmpasu: materion a nodwyd, gweithredoedd a gynlluniwyd, dyddiad targed ar gyfer cwblhau, unigolyn cyfrifol, statws unrhyw faterion ac adolygiad o'u heffeithiolrwydd.
- ✓ Cadwch gofnod o'ch gweithredoedd i atal neu leihau amlygiad gweithwyr i sylweddau peryglus.
- ✓ Efallai y bydd rhaid i chi newid hen arferion gwaith neu weithredu rheoliadau newydd. Penderfynwch beth yw'r ffordd orau i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen 'yn gyffredinol'. Os oes unrhyw amheuaeth, ceisiwch gymorth arbenigol. Gofynnwch i'ch cymdeithas masnach, undeb llafur neu cysylltwch ag ymgynghorwr (gweler Rhagor o wybodaeth).

## Gwybodaeth allweddol

Gallwch weld y gyfres lawn o Hanfodion COSHH ar: www.hse.gov.uk/coshh/index.htm

Mae taflenni arsylwi iechyd, monitro a samplu ar gael ar: www.hse.gov.uk/pubns/guidance/gseries.htm

*Goruchwyliaeth iechyd ar gyfer asthma galwedigaethol*
Canllaw COSHH sheet G402.

## Rhagor o wybodaeth

- ✓ HSG258 *Rheoli llygryddion yn yr aer yn y gwaith: Canllaw i awyriad gwacáu lleol (LEV):* www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg258.htm
- ✓ HSG53 *Cyfarpar diogelu resbiradol yn y gwaith - Canllaw ymarferol:* www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg53.htm
- ✓ Cofrestr Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol: www.oshcr.org/
- ✓ *Y Rheoliadau Rheoli Plwm yn y Gweithle 2002. (Trydydd rhifyn) ACOP a chanllaw*: www.hse.gov.uk/pubns/books/l132.htm

Am wybodaeth ar iechyd a diogelwch, ewch i https://books.hse.gov.uk neu http://www.hse.gov.uk

Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

I adrodd am anghysondeb neu wallau yn y canllaw hwn, anfonwch e-bost at: commissioning@wlt.com

© *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno ailddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd 11/19
Cyhoeddwyd ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan drwydded gan Reolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.